



Cyngor Sir

CEREDIGION

GWASANAETHAU DYSGU

Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE

Cludiant Ysgol / Coleg



Canllaw i Rieni/
Gwarcheidwad a Dysgwyr

Cynnwys

CYFLWYNIAD	1
1. GOFAL, LLES AC YMDDYGIAD DYSGWYR AR GLUDIANT YSGOL/COLEG	2
2. CYRRAEDD MANNAU CODI A DOD YN ÔL OHONYNT	4
3. DYSGWYR - Y COD TEITHIO	6
4. GWEITHDREFNAU DISGYBLAETHOL	8
5. GORUCHWYLIAETH	9
6. DEFNYDD O GARDIAU BWS	9
7. CWYNION	10
8. CYSYLLTU	10

CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd y canllawiau hyn i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni a dysgwyr am gludiant ysgol/coleg yng Ngheredigion. Y maent hefyd yn cynnwys Cod Llywodraeth Cymru ar Ymddygiad wrth Deithio.

Y mae'r Cod yn orfodol i bob dysgwr hyd at 19 blwydd oed (neu dros 19 os dechreuodd ar ei g/chwrs cyn cyrraedd 19 oed).

Mae'n rhaid i ddysgwyr gydymffurfio â'r Cod wrth deithio i'w man dysgu ac yn ôl. Bydd hyn yn cynnwys teithiau rhwng sefydliadau yn ystod y dydd, nid dim ond ar ddechrau a diwedd y dydd.

Yn ôl y gyfraith cyfrifoldeb y rhieni/gwarcheidwaid yw sicrhau bod eu plant yn mynd i'r ysgol a gwneud trefniadau teithio addas ar eu cyfer. Eto, lle bo dysgwyr yn mynychu ac yn byw fwy na'r pellter cerdded penodedig o'r ysgol sy'n gwasanaethu'r ardal, bydd y Cyngor yn cynorthwyo â theithio i'r ysgol/coleg ac yn ôl drwy roi cludiant ysgol/coleg di-dâl ar gael am y cwbl neu ran o'r daith. Mae'n ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant ar gyfer dysgwyr 5-16 oed.

Mae'r canllawiau hyn yn cyflwyno

- Cyfrifoldebau'r Cyngor, Contractwyr Cludiant, Ysgolion, Rhieni a Dysgwyr
- Ffyrdd y gall rhieni/gwarcheidwad a dysgwyr helpu i sicrhau bod y daith i'r/o'r ysgol/coleg yn saff ac yn ddibynadwy.

1. GOFAL, LLES AC YMDDYGIAD DDYSGWYR AR GLUDIANT YSGOL/COLEG

Beth yw cyfrifoldebau'r cyngor?

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i ddarparu cludiant ysgol/coleg saff.

Yr ALL/ysgol/coleg sy'n gyfrifol am gymryd pa gamau disgyblaethol bynnag a fo'n angenrheidiol i gynnal ymddygiad derbyniol ar gludiant ysgol/coleg. Mae gan yr ysgol/coleg a/neu'r ALL yr hawl i dynnu yn ôl, dros dro neu'n barhaol, cludiant di-dâl dysgwyr os bydd angen hynny er mwyn cynnal disgyblaeth a diogelwch eraill.

Beth yw cyfrifoldebau'r contractwr?

Mae darparwr y cludiant yn gyfrifol am ofalu'n rhesymol am ddysgwyr ar y cerbyd sy'n eu cludo. Mae hyn yn cynnwys bod y cerbyd yn rhedeg yn saff ar y ffordd, goruchwyllo mynd ar y cerbyd ac oddi arno a hysbysu'r ALL/ysgol/coleg o gamymddygiad. Ni chaiff dysgwyr eu rhoi oddi ar y cerbyd, ond fe fydd y gyrrwr yn hysbysu'r ysgol/coleg/ALL o ddigwyddiadau i alluogi'r Pennaeth/ALL i weithredu yn y modd priodol. Mae canllawiau a roddir i'r gyrrwr yn pwysleisio eu cyfrifoldeb pennaf o ran diogelwch y cerbyd ar y ffordd, ond hefyd yn gofyn am eu cydweithrediad mewn nodi a hysbysu camymddygiad. Nid yw'r gyrrwr yn gyfrifol am ddysgwyr ond fe gaiff wneud fel a ganlyn:

- Dweud wrth ddysgwyr sut i ymddwyn;
- Gofyn am enw a chyfeiriad, a mynd â cherdyn teithio yn brawf o bwy yw rhywun;
- Hysbysu'r ALL/ysgol/coleg o gamymddygiad er mwyn iddynt weithredu ymhellach;
- Troi'r bws a mynd yn ôl i'r ysgol fel yr ymdrinnir â chamymddygiad difrifol lle bo hyn yn rhesymol;

- Gyrru i swyddfa heddlu neu alw am gymorth gan yr heddlu.

Os ceir fandaliaeth i'r bws mae gan y darparwr hawl hefyd i ddisgwyl iawndal gan y dysgwyr dan sylw neu'r rhieni/gwarcheidwaid, a gallai hysbysu'r heddlu o'r mater.

Beth yw fy nghyfrifoldebau i fel rhiant/ gwarcheidwad a/neu ofalwr?

Mae'r canlynol yn berthnasol i Rieni, Gwarcheidwaid a/neu Ofalwyr.

- Maent yn gyfrifol am annog ymddygiad da a sicrhau bod eu plant yn cydymffurfio â Chod Llywodraeth Cymru ar Ymddygiad wrth Deithio.
- Mae disgwyl iddynt gefnogi'r Cyngor, yr ysgolion/colegau, y darparwr a'u staff wrth gynnal ymddygiad da.

Os bydd dysgwyr â rhan mewn ymddygiad gwael ar gludiant ysgol/coleg, cynhwysir rhieni, gwarcheidwaid a/neu ofalwyr yn y broses ddisgyblaethol ar y cyfle cyntaf.

Dylid deall yn glir mewn achosion o ymddygiad gwael mai'r sancsiwn eithaf fydd tynnu yn ôl yr hawl i dderbyn cludiant. Mewn achos o'r fath bydd y cyfrifoldeb am ddarparu cludiant a holl gost hynny yn disgyn ar y rhieni, y gwarcheidwaid a/neu'r gofalwyr.

2. CYRRAEDD MANNAU CODI A DOD YN ÔL OHONYNT

Rhieni/Gwarcheidwaid sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu plant yn dod yn saff o'r cartref i fan codi'r cludiant yn y bore, ac yn ôl adref yn y prynhawn o fan gollwng y cludiant. Dylid hebrwng plant ifanc hyd nes bo'r rhieni'n hyderus y gallant ddod i ben yn saff heb eu goruchwyllo. Rhieni sy'n gyfrifol hefyd am oruchwyllo eu plant yn ôl yr angen wrth y man codi.

Wrth arosfannau penodedig y bydd y manau codi a gollwng.

- Dylai dysgwyr adael eu cartref mewn da bryd fel na fo angen brysio. Cofiwch fod cludiant yn rhedeg yn ôl amserlen ac na wnaiff aros am ddysgwyr nad ydynt yno mewn pryd;
- Defnyddiwch y palmant os oes un. Lle nad oes palmant, cerddwch gan wynebu'r traffig sy'n dod atoch;
- Gwisgwch rywbeth llachar yn y tywyllwch neu adeg tywydd gwael fel y gall gyrwyr eich gweld chi;
- Gwisgwch yn gynnes rhag ofn y bydd angen aros yn hwy na'r disgwyl;
- Arhoswch am y bws lle gellir eich gweld chi'n glir ac ar yr un ochr i'r ffordd â drws y bws;
- Sefwch draw o ymyl y ffordd wrth aros am y bws, yn enwedig wrth i'r bws gyrraedd;
- Mae'n rhaid i ddysgwyr beidio â gwthio i gael mynd ar y bws gyntaf – gallai rhywun gael ei wthio o dan yr olwynion!
- Gadewch i deithwyr eraill ddod oddi ar y bws cyn mynd arno (os yw'n berthnasol);

- Byddwch â'ch cerdyn teithio'n barod i'w ddangos i'r gyrrwr;
- Defnyddiwch y bws sydd wedi cael ei benodi i chi. Mae gan yrrwr bws yr hawl i wrthod mynd â dysgwyr nad ydynt wedi'u penodi i'w gerbyd;
- Peidiwch byth â rhedeg ochr yn ochr â'r bws tra bydd yn symud;
- Os na ddaw'r bws o fewn 15 munud i'r amser penodedig gellir cymryd nad yw'n dod oherwydd amodau ar y ffordd neu am ei fod wedi torri i lawr;
- Dylai rhieni/gwarcheidwaid wneud yn siŵr bob amser y gall dysgwyr nad ydynt yn cael eu hebrwng fynd yn ôl adref neu fynd yn ddiogel eu hunain i dŷ arall os bydd y cludiant yn methu â rhedeg;
- Ar ôl mynd o'r cerbyd, arhoswch hyd nes y bydd wedi symud i ffwrdd cyn croesi'r ffordd.

3. DYSGWYR - Y COD TEITHIO

Mae'ch diogelwch chi'n bwysig iawn. Mae'n rhaid i chi ymddwyn yn gyfrifol ac yn saff wrth deithio i'r ysgol neu'r coleg ac yn ôl, p'un ai ar y bws, y trê, mewn tacsî, ar gefn beic, drwy gerdded neu unrhyw ffordd arall y byddwch yn mynd yno. Os byddwch yn cymryd bws i'r ysgol neu'r coleg, mae'n rhaid i chi hefyd ddilyn y rheolau yn y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar Fysiau Ysgol/Coleg.

Os na ddilynwch chi'r Cod hwn, er mwyn eich diogelwch eich hun, a diogelwch eraill, gall awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau weithredu yn eich erbyn. Gall fod hyn yn cynnwys tynnu yn ôl eich hawl i gludiant ysgol/coleg a hyd yn oed eich gwahardd o'r ysgol/coleg.

Eich Cyfrifoldeb Chi

- Dangoswch barch bob amser i eraill, gan gynnwys dysgwyr eraill, gywyr a'r cyhoedd.
- Dangoswch barch bob amser i gerbydau ac eiddo.
- Byddwch yn gwrtais bob amser.
- Peidiwch byth â gollwng sbwriel.
- Ufuddhewch bob amser y gyfraith.

Eich Diogelwch Chi

- Bihafiwch yn dda bob amser wrth deithio.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr wrth deithio bob amser.
- Mae'n rhaid ichi beidio â thynnu sylw gywyr oddi ar eu gwaith.
- Croeswch y ffordd yn saff ac yn synhwyrol bob amser.
- Teithiwch bob amser ar lwybr saff.

Eich Hawliau Chi

- Bod yn saff wrth deithio.
- Cael eich trin yn deg a gyda pharch.
- Dweud wrth rywun os oes rhywun neu rywbeth yn achosi problemau i chi.
- Peidio â chael eich bwlio na'ch poeni.

Da chi, dywedwch wrth athro/darlithydd, rhiant neu yrrwr am unrhyw ymddygiad

Cod Ymddygiad wrth Deithio ar Fysiau Ysgol/Coleg

- o Pan fyddwch wrth y safle bysiau, arhoswch mewn modd synhwyrol bob amser, a hynny heb fod ar y ffordd.
- o Gnewch gytundeb â'ch rhieni am beth i'w wneud os na ddaw'r bws neu os collwch chi ef.
- o Pan ddaw'r bws, arhoswch iddo stopio. Peidiwch byth â gwthio na rhuthro am y drws.
- o Dangoswch eich cerdyn bws (os ydych wedi cael un) pan ddewch chi ar y bws, **neu efallai bydd rhai i chi dalu.**
- o Ar fws ysgol/coleg penodedig arhoswch yn eich sedd drwy gydol y daith.
- o Ar fws cyhoeddus cymerwch sedd os oes un ar gael.
- o Peidiwch byth â rhwystro canol y bws â'ch bag nac unrhyw eiddo arall.
- o Cymerwch sedd, a gwisgwch y gwregysau diogelwch (sy'n cael eu darparu ar bob bws ysgol/coleg penodedig). **Y mae erbyn hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith i ddefnyddio gwregysau diogelwch ar fysiau ysgol/coleg penodedig.**
- o Mae'n rhaid i chi beidio â thynnu sylw'r gyrrwr oddi ar ei (g)waith pan fo'n gyrru.
- o Peidiwch byth â bwyta nac yfed ar y bws.
- o Peidiwch byth â thafllu dim byd yn y bws nac o'r bws.
- o Peidiwch byth â difrodi na fandaleiddio unrhyw ran o'r bws.
- o Peidiwch byth â gwneud dim byd â drysau nac allanfeydd y bws, heblaw mewn argyfwng.
- o Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr neu'r cynorthwydd teithwyr bob amser.
- o Os bydd damwain, arhoswch ar y bws hyd nes dywedir wrthyf am fynd oddi arno. Os na fydd yn saff aros ar y bws ewch oddi arno drwy'r allanfa saffaf.
- o Peidiwch byth â cheisio mynd ar y bws na dod oddi arno hyd nes y bydd wedi stopio.
- o Dewch oddi ar y bws mewn modd synhwyrol bob amser, gan fynd â'ch holl eiddo gyda chi.
- o Peidiwch byth â chroesi'r ffordd o flaen y bws nac yn agos y tu ôl iddo.

4. GWEITHDREFNAU DISGYBLAETHOL

Y Cyngor ac ysgolion/colegau sy'n gyfrifol am weithrediad disgyblaethol mewn perthynas ag ymddygiad dysgwyr ar gludiant ysgol/coleg.

Gall y Cyngor ddiddymu trefniadau teithio a fo wedi'u gwneud ar gyfer dysgwyr os bydd wedi'i argyhoeddi bod y dysgwyr wedi peidio â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

Cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad i dynnu cludiant ysgol yn ôl, dilynir y drefn ganlynol:

- Rhoddir cyfle i riant/warcheidwad y dysgwyr dan sylw gyflwyno achos ar ei r(h)an ac fe ystyrir yr achos hwnnw gan y Cyngor.
- Ymgynghorir â phennaeth yr ysgol/coleg perthnasol y mae'r dysgwyr wedi'i g/chofrestru ynddo/i ynghylch y penderfyniad i dynnu cludiant ysgol/coleg yn ôl a rhoddir o leiaf 24 awr o rybudd iddo/i o'r penderfyniad cyn iddo gael ei roi mewn grym.
- Rhoddir o leiaf 24 awr o rybudd i riant/warcheidwad y dysgwyr dan sylw o'r penderfyniad cyn iddo gael ei roi mewn grym. Mewn achosion o gamymddygiad difrifol, gellir rhoi trefniadau eraill ar waith yn syth.

Bydd y Cyngor a'r ysgolion/colegau'n defnyddio ystod gynyddol o sancsiynau ysgafn. Bydd y Cyngor a'r ysgolion/colegau'n tynnu rhieni/gwarcheidwaid i mewn i'r mater lle bo sancsiynau disgyblaethol wedi cael eu defnyddio. Os bydd y camymddygiad yn ddifrifol iawn neu'n parhau ar ôl rhybudd bydd y Cyngor a'r ysgolion/colegau hefyd yn argymhell gwrthod cludiant di-dâl am gyfnod. Os bydd cludiant addysg di-dâl wedi'i dynnu yn ôl fe ddaw rhieni/gwarcheidwad yn gyfrifol am wneud trefniadau teithio eu hunain i sicrhau bod y dysgwyr yn dal i fynyachu (heblaw bod y dysgwyr hefyd wedi cael ei (g)wahardd o'r ysgol).

Bydd y Cyngor a'r ysgolion/colegau'n cymryd agwedd gadarn ac ni fyddant yn goddef camymddygiad ar gludiant addysg gan ei fod yn peryglu iechyd a diogelwch yr holl rai sy'n teithio.

Mae rhieni/gwarcheidwaid yn gyfrifol am ymddygiad eu plant yn yr ysgol, ar gludiant ysgol/coleg ac yn y stryd. Disgwylir y bydd rhieni'n cefnogi mesurau disgyblaethol a gymerir gan y Cyngor a'r ysgolion/colegau. Dylech nodi nad yw gwahardd eich plentyn o gludiant ysgol/coleg yn newid eich cyfrifoldebau chi i sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol.

Gall unrhyw weithred o ddifrod troseddol arwain at weithredu gan yr heddlu a bydd rhieni/gwarcheidwad y sawl a fo'n euog yn gyfrifol am gost unrhyw atgyweirio y bydd ei angen.

5. GORUCHWYLIAETH

Ar y bws mae'r gyrrwr yn oedolyn sy'n bresennol rhag ofn argyfwng. Lle bo un llwybr cludiant i fod i gysylltu ag un arall, bydd y gyrrwr yn cael cyfarwyddiadau i aros am y cysylltiad fel na fydd dysgwyr wedi'u gadael heb oruchwyliaeth yn y man cysylltu.

Lle bo ei hangen er mwyn diogelwch, bydd yr ysgol yn darparu goruchwyliaeth briodol i blant rhwng y bws ac adeiladau'r ysgol.

6. DEFNYDD O GARDIAU BWS

Rhoddir cardiau bws ar gyfer llwybr penodol (fel a ddangosir ar y cerdyn) ac felly mae gyrrwr bysiau wedi cael eu siarsio i BEIDIO Â GADAEL i ddysgwyr nad oes ganddynt y cerdyn iawn ddod ar eu bws.

Bydd rhieni/gwarcheidwad yn deall ei bod yn hanfodol, os bydd argyfwng, bod mynediad i'w gael yn rhwydd at enwau'r dysgwyr sydd wedi cael cardiau ar gyfer pob bws.

7. CWYNIION

Os bydd unrhyw ddysgwyr yn pryderu am unrhyw agwedd ar y gweithgarwch e.e. camymddygiad, bwlio, gweithrediad gan y gyrrwr neu rywun arall ar y bws ysgol/coleg y byddant yn ei ddefnyddio, dylai roi gwybod i'r ysgol/coleg/ALL am y broblem (gellir gwneud hyn yn gyfrinachol).

Mae'n rhaid i ysgolion/colegau sicrhau bod problemau'n ymwneud ag annibynadwyedd, torri i lawr, diffyg prydlondeb a cherbydau anfoddfaol yn cael eu hadrodd yn brydlon i'r Uned Cludiant Teithwyr Gorfforaethol fel y gellir monitro perfformiad pob gweithredwr a chymryd camau i gywiro materion le bo angen hynny.

Anogir rhieni/gwarcheidwad hefyd i adrodd unrhyw broblemau o'r fath yn uniongyrchol i'r Uned Cludiant Teithwyr Gorfforaethol.

8. CYSYLLTU

Cais am gludiant

Ymholiadau ynghylch hawl i gludiant ysgol/coleg

Ceisiadau am gardiau bws

Cwynion am ymddygiad dysgwyr

Cwynion am yrwyr

Cwynion yn ymwneud â cherbydau a ddefnyddir ar gyfer cludiant ysgol/coleg

Cwynion/ymholiadau am Hebryngwyr mewn Car

Amserlenni Cludiant Ysgol/Coleg

Y niferoedd a ddelir gan gerbydau

**Uned Cludiant Teithwyr
Corfforaethol
(01545 570881)**

Clic@ceredigion.gov.uk